Rhif: WG48359

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y Rheolau Safonau Gweithredol

Hydref 2023

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru,
WG48359, ISBN Digidol 978-1-83504-816-0

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 1

2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg ........ 1

3. Ymdrin â'r ymatebion ........ 1

4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ac Ymateb y Llywodraeth ........ 2

   Cysondeb dros y ffin ........ 2

   Y Rheolau Safonau Gweithredol ........ 3

   Dangosyddion Perfformiad Allweddol ........ 7

   Y cyd-destun Strategol ........ 13

   Cwestiynau cyffredinol ........ 14

5. Y Camau Nesaf ........ 15

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 26 Medi 2022 ar y Rheolau Safonau Gweithredol y bydd yn ofynnol i Gyrff Rheoli Adeiladu, Awdurdodau Lleol a Chymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig eu dilyn o dan ddarpariaethau Deddf Adeiladu 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022.

1.2. Ni fwriedir i'r adroddiad gofnodi'n fanwl bob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr, ond dylid nodi bod yr holl sylwadau wedi cael ystyriaeth ddyladwy, p'un a ydynt wedi'u nodi yma ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i bob grŵp o gwestiynau, fel y cawsant eu grwpio yn yr ymgynghoriad.

1.3. Y safbwyntiau a nodir yn y crynodeb hwn yw'r rhai a fynegwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac nid ydynt yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

# 2. Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Trosolwg

2.1. Bydd y Rheolau Safonau Gweithredol yn gymwys i Awdurdodau Lleol a Chymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig.

2.2. Cafwyd 16 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad nodi i ba un o'r 12 o fathau o sefydliadau a nodwyd ar y ffurflen yr oedd eu sefydliad yn perthyn (gan gynnwys opsiwn 'arall' hunanddynodedig). Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr ymatebion a gyflwynwyd gan bob sector.

| Math o Sefydliad | Nifer |
|---|---|
| Adeiladwr / Datblygwr | 0 |
| Dylunydd / Peiriannydd / Syrfëwr | 1 |
| Awdurdod Lleol | 6 |
| Arolygydd Cymeradwy Rheoli Adeiladu | 1 |
| Arolygwr Adeiladu gyda chwmni o Arolygwyr Cymeradwy | 1 |
| Arolygydd Adeiladu gydag Awdurdod Lleol | 4 |
| Pensaer | 1 |
| Gwneuthurwr / Yn y gadwyn gyflenwi | 0 |
| Gweithiwr Proffesiynol ym maes adeiladu | 0 |
| Corff proffesiynol | 1 |
| Deiliad / Preswyliwr adeilad | 0 |
| Parti arall a chanddo fudd (rhowch fanylion) | 1 |

# 3. Ymdrin â'r ymatebion

3.1. Darparwyd ffurflen ymateb safonol er hwylustod, ond lle nad oedd ymatebwyr wedi defnyddio'r ffurflen, mae'r sylwadau wedi cael eu priodoli i'r cwestiwn mwyaf priodol.

3.2. Lle nad oedd ymatebwyr wedi ateb drwy ddefnyddio'r ymatebion safonol a gynigiwyd ond roeddent wedi nodi safbwynt eglur yn eu hateb, mae'r rhain wedi cael eu priodoli i'r ymateb hwnnw yn y dadansoddiad ystadegol. Er enghraifft, lle y defnyddiodd ymatebydd yr ymadrodd ‘Rwy'n cefnogi'r cynnig’, cafodd ei ymateb ei nodi'n ateb cadarnhaol. Lle nad oedd ymateb yn glir, cafodd atebion eu nodi'n rhai ‘dim ymateb’ yn y dadansoddiad ystadegol a chafodd yr ymatebion eu cynnwys yn y crynodeb o'r sylwadau.

# 4. Ymatebion i'r ymgynghoriad – Crynodeb Byr ac Ymateb y Llywodraeth

## Cysondeb dros y ffin

**Cwestiwn 1**

4.1. A yw cysondeb ar draws gweinyddiaethau (hy Cymru a Lloegr) yn bwysig i’ch sefydliad chi? Rhowch fwy o wybodaeth am y problemau y mae anghysondeb yn eu hachosi.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydy** | 13 | 81.3% |
| **Nac ydy** | 2 | 12.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 0 | 0% |
| **Amherthnasol** | 1 | 6.3% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0.0% |

4.2. Roedd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn cytuno bod cysondeb ar draws gweinyddiaethau yn bwysig. Ymhlith y rhesymau a roddwyd oedd ei bod yn fwy effeithlon i gadw rheolaeth a rhoi arferion gorau ar waith am fod Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig ac Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig yn gallu gweithio'n drawsffiniol.

4.3. Tynnodd ymatebwyr sylw at nifer o broblemau y gallai anghysondeb eu hachosi, megis costau uwch o bosibl pe bai gofyniad i gydymffurfio â systemau sy'n wahanol a dryswch o ganlyniad i reolau gwahanol o bosibl a risg a chymhlethdod diangen.

**Cwestiwn 2**

4.4. Yn eich barn chi, pa gyfleoedd / rhwystrau a allai ddod i’r amlwg wrth i safonau wedi’u teilwra gael eu datblygu ar gyfer y sawl sy’n gweithredu yng Nghymru?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.5. Nododd ymatebwyr nifer o gyfleoedd a rhwystrau, er enghraifft un rhwystr mawr a nodwyd oedd costau cynyddol pe bai angen rhoi system ar wahân ar

waith fel y nodwyd yng nghwestiwn un ond, ar yr un pryd, gallai hynny fod yn sbardun i wella perfformiad yn y system rheoli adeiladu yng Nghymru, a dylanwadu ar welliannau mewn mannau eraill.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.6. Nodwyd yr holl sylwadau, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau i gysoni safonau cymaint â phosibl a hefyd gyflwyno fframwaith sy'n addas at y diben yng Nghymru.

## Y Rheolau Safonau Gweithredol

**Cwestiwn 3**

4.7. I ba raddau yr ydych yn hyderus eich bod chi / eich corff rheoli adeiladu'n gallu bodloni'r rheolau a amlinellir yn Systemau a mesurau rheoli? Os 'ddim yn hyderus o gwbl', dywedwch wrthym pa reol / pa reolau yr ydych yn poeni amdani / amdanynt a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn hyderus iawn** | 6 | 37.5% |
| **Yn weddol hyderus** | 5 | 31.3% |
| **Ddim yn hyderus o gwbl** | 3 | 18.8% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 12.5% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0.0% |

4.8. Nododd cyfran fawr o'r ymatebwyr eu bod yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus o ran bodloni'r rheolau a amlinellir yn Systemau a Mesurau Rheoli, gyda chyfran fach o ymatebwyr yn dweud nad oeddent yn siŵr neu nad oeddent yn hyderus o gwbl.

4.9. Awgrymodd ymatebwyr y byddai'n fuddiol cael rhagor o ganllawiau manwl ynglŷn â disgwyliad yr awdurdod rheoleiddio a gorfodi, a phe bai'r rheolau yn cael eu cyhoeddi ar gam cynnar.

**Cwestiwn 4**

4.10. Gan ystyried rheol 1.13, a oes yna fathau o wrthdaro o ran buddiannau sy'n unigryw i'r diwydiant rheoli adeiladu? Os 'oes', rhowch eich enghraifft / enghreifftiau chi o'r maes rheoli adeiladu ac esboniwch eich rhesymau.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 11 | 69.0% |
| **Nac oes** | 2 | 13.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 19.0% |
| **Amherthnasol** | 0 | 0.0% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0.0% |

4.11. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod mathau o wrthdaro buddiannau sy'n unigryw i'r diwydiant rheoli adeiladu.

4.12. Nododd llawer o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod ychydig o faterion allweddol yn codi mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau a didueddrwydd yn y diwydiant megis pan fydd gan unigolion sy'n gweithio i Arolygwyr Cymeradwy a chyrff rheoli adeiladu ALl eu busnesau eu hunain sy'n ymwneud â rheoli adeiladu, megis datblygu cynlluniau a/neu baratoi cyfrifiadau strwythurol. Un mater arall a godwyd gan rai ymatebwyr oedd pan fydd gan Arolygwyr Cymeradwy gysylltiadau â datblygwyr/adeiladwyr lle mae busnes rheolaidd yn dibynnu ar safon gwasanaeth is.

**Cwestiwn 5**

4.13. I ba raddau yr ydych yn hyderus eich bod chi / eich corff rheoli adeiladu'n gallu bodloni'r rheolau a amlinellir yn Personau? Os 'ddim yn hyderus o gwbl', dywedwch wrthym pa reol / pa reolau yr ydych yn poeni amdani / amdanynt a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn hyderus iawn** | 2 | 12.5% |
| **Yn weddol hyderus** | 6 | 37.5% |
| **Ddim yn hyderus o gwbl** | 6 | 37.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 12.5% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0.0% |

4.14. Cafwyd rhaniad cyfartal ymhlith yr ymatebwyr o ran pa mor hyderus oeddent y byddent yn gallu bodloni'r rheolau a amlinellir yn Personau.

4.15. Ymhlith y problemau a nodwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'r rheolau roedd monitro cydymffurfiaeth a phroblemau o ran cofrestru. Nododd rhai ymatebwyr fod adnoddau staffio yn achos pryder penodol, oherwydd cyllidebau yn y dyfodol a phrinder sgiliau o ganlyniad i broblemau recriwtio yn y diwydiant.

**Cwestiwn 6**

4.16. I ba raddau yr ydych yn hyderus eich bod chi / eich corff rheoli adeiladu'n gallu bodloni'r rheolau a amlinellir yn Swyddogaethau rheoli adeiladu? Os 'ddim yn hyderus o gwbl' neu 'ddim yn siŵr', dywedwch wrthym pa reol / pa reolau yr ydych yn poeni amdani / amdanynt a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn hyderus iawn** | 4 | 25.0% |
| **Yn weddol hyderus** | 8 | 50.0% |
| **Ddim yn hyderus o gwbl** | 2 | 12.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 2 | 12.5% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0.0% |

4.17. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus y gallent fodloni'r rheolau a amlinellir.

4.18. Rhestrodd ymatebwyr nifer o bryderon, gan gynnwys y byddai lefel a manylder prosesau cofnodi data ac adrodd yn gosod baich sylweddol ar y rhai dan sylw ac y byddai angen eglurder hefyd ynglŷn â rhoi cyngor ar yr agweddau ar brosiectau adeiladu penodol sy'n ymwneud â dylunio ac adeiladu.

**Cwestiwn 7**

4.19. Gan ystyried rheol 3.13, i ba raddau yr ydych chi / eich corff rheoli adeiladu'n hyderus y bydd modd cael adroddiadau arolygu cyn pen dau ddiwrnod gwaith?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn hyderus iawn** | 2 | 12.5% |
| **Yn weddol hyderus** | 4 | 25.0% |
| **Ddim yn hyderus o gwbl** | 7 | 43.8% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 18.8% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0.0% |

4.20. Os 'ddim yn hyderus o gwbl' neu 'ddim yn siŵr', dywedwch wrthym pa fath o amserlen fyddai'n realistig.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Tri diwrnod gwaith** | 0 | 0.0% |
| **Pedwar diwrnod gwaith** | 1 | 6.3% |
| **Pum diwrnod gwaith** | 9 | 56.3% |
| **Arall** | 2 | 12.5% |
| **Dim ymateb** | 4 | 25.0% |

4.21. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent yn hyderus neu nad oeddent yn siŵr y byddai modd cael adroddiadau arolygu cyn pen dau ddiwrnod gwaith. Awgrymodd dros hanner yr ymatebwyr y byddai pum diwrnod gwaith yn haws ei gyflawni.

**Cwestiwn 8**

4.22. Gan ystyried rheol 3.14, i ba raddau yr ydych yn hyderus eich bod chi / eich corff rheoli adeiladu'n gallu hysbysu rheoleiddwyr eraill ynghylch newidiadau neu bryderon cyn bod adeilad yn cael ei feddiannu neu cyn bod y risg yn digwydd? Os 'ddim yn hyderus o gwbl' neu 'ddim yn siŵr', dywedwch wrthym pam na fyddai modd darparu'r wybodaeth dan sylw.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn hyderus iawn** | 1 | 6.3% |
| **Yn weddol hyderus** | 9 | 56.3% |
| **Ddim yn hyderus o gwbl** | 2 | 12.5% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 18.8% |
| **Dim ymateb** | 1 | 6% |
| | | |

4.23. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn weddol hyderus.

4.24. Ymhlith y rhesymau a roddwyd pam na ellid darparu'r wybodaeth hon o fewn y terfyn amser roedd y canlynol: bod y ddyletswydd yn golygu bod angen monitro prosiectau yn rheolaidd, sy'n gofyn am lawer o adnoddau, y byddai'n dibynnu ar lefel a maint y newid o fewn prosiect, ac efallai nad yw cyrff rheoli adeiladu yn meddu ar y lefel o arbenigedd i ragweld problemau technegol cymhleth a chymryd camau gweithredu effeithiol mewn modd amserol.

**Cwestiwn 9**

4.25. I ba raddau yr ydych yn hyderus eich bod chi / eich corff rheoli adeiladu'n gallu bodloni'r rheolau a amlinellir yn Gorfodi ac ymyrryd? Os 'ddim yn hyderus o gwbl' neu 'ddim yn siŵr', dywedwch wrthym pam na fyddai modd darparu'r wybodaeth dan sylw.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn hyderus iawn** | 2 | 12.5% |
| **Yn weddol hyderus** | 4 | 25.0% |
| **Ddim yn hyderus o gwbl** | 7 | 43.8% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 18.8% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0% |

4.26. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd 'Ddim yn hyderus o gwbl'. Atebodd canran ychydig yn is o'r ymatebwyr eu bod yn weddol hyderus neu'n hyderus iawn.

4.27. Ymhlith y sylwadau gan ymatebwyr roedd y canlynol: awgrym nad oedd y terfyn amser yn ddichonadwy am fod achosion o dorri rheolau yn aml yn rhai mân sy'n cael eu datrys yn gyflym, bod angen i'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i Ddeddf Adeiladu 1984 gael ei ddiwygio'n sylweddol, bod canlyniadau gwael dyfarniadau'r llys yn golygu bod swyddogion rheoli adeiladu yn amharod i gymryd camau gorfodi, ac y byddai'r cynnig yn heriol o safbwynt adnoddau.

**Cwestiwn 10**

4.28. Gan ystyried rheol 4.2, i ba raddau yr ydych chi / eich corff rheoli adeiladu'n hyderus y gallech ddiweddaru eich cofnodion cyn pen dau ddiwrnod gwaith?

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn hyderus iawn** | 2 | 12.5% |
| **Yn weddol hyderus** | 4 | 25.0% |
| **Ddim yn hyderus o gwbl** | 7 | 43.8% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 18.8% |
| **Dim ymateb** | 0 | 0% |

4.29. Os ‘ddim yn hyderus o gwbl’ neu ‘ddim yn siŵr’, dywedwch wrthym pa fath o amserlen fyddai’n realistig.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Tri diwrnod gwaith** | 1 | 6.3% |
| **Pedwar diwrnod gwaith** | 0 | 0.0% |
| **Pum diwrnod gwaith** | 8 | 50.0% |
| **Arall** | 0 | 0.0% |
| **Dim ymateb** | 7 | 43.8% |

4.30. Cymysg fu'r ymateb i'r cwestiwn hwn. Nododd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr nad oeddent yn hyderus o gwbl. Awgrymodd pob ymatebydd ond un y byddai amserlen o bum diwrnod gwaith yn fwy dichonadwy i gyrff rheoli adeiladu ddiweddaru eu cofnodion.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.31. Mae'r holl sylwadau wedi cael eu nodi ac, o ganlyniad, caiff newidiadau sylweddol eu gwneud i'r Rheolau Safonau Gweithredol er mwyn sicrhau eu bod yn fwy eglur a rhoi arweiniad ychwanegol ar ddisgwyliadau.

4.32. Ymhlith y newidiadau penodol mae newid i'r amserlen arfaethedig o ddau ddiwrnod gwaith i bum diwrnod gwaith i roi gwybod, newid tebyg i'r amserlen ar gyfer diweddaru cofnodion gorfodi ac ymyrryd, ac mae'r lefelau a gynigiwyd yn flaenorol mewn perthynas â chofnodi data wedi cael eu diwygio (a'u dileu'n gyfan gwbl mewn rhai achosion).

4.33. Hefyd, er bod mwyafrif o'r ymatebwyr yn hyderus ar y cyfan y gellid cydymffurfio â rheol 3.14, mae'r sylwadau wedi arwain at adolygiad o'r cynnig ac, o ganlyniad i hynny, mae'r rheol hon wedi cael ei dileu.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

**Cwestiwn 11**

4.34. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 1, faint o’r data a gynigir yr ydych yn ei gasglu eisoes? Os ‘ychydig neu ddim ohono’ neu ‘rhywfaint ohono’, dywedwch wrthym pa elfennau penodol o’r data nad ydych yn eu casglu a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Y rhan fwyaf neu’r cyfan ohono** | 5 | 31.3% |
| **Rhywfaint ohono** | 6 | 37.5% |
| **Ychydig neu ddim ohono** | 2 | 12.5% |
| **Dim ymateb** | 3 | 18.8% |

4.35. Nododd canran fawr o'r ymatebwyr eu bod yn casglu rhywfaint o'r data neu'r rhan fwyaf o'r data ar hyn o bryd.

4.36. Nododd rhai ymatebwyr nad oedd data yn cael eu casglu oherwydd cyfyngiadau cynhyrchion meddalwedd a'r anallu i asesu cymhwysedd staff asiantaeth.

**Cwestiwn 12**

4.37. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 1, a oes yna unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr ydych yn argymell y dylem eu hystyried ymhellach? Os oes, rhowch fanylion a nodwch y rhesymau pam.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.38. Argymhellodd yr ymatebwyr nifer o DPAau i'w hystyried ymhellach megis mesur y llwyth gwaith cyfan, nifer y swyddi gwag ar y pryd a manylion proffil oedran, er mwyn ei gwneud yn bosibl i gynllunio ar gyfer olyniaeth a llunio trefniadau staffio wrth gefn.

**Cwestiwn 13**

4.39. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 2, faint o’r data a gynigir yr ydych yn ei gasglu eisoes? Os ‘ychydig neu ddim ohono’ neu ‘rhywfaint ohono’, dywedwch wrthym pa elfennau penodol o’r data nad ydych yn eu casglu a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Y rhan fwyaf neu’r cyfan ohono** | 10 | 62.2% |
| **Rhywfaint ohono** | 2 | 12.5% |
| **Ychydig neu ddim ohono** | 0 | 0.0% |
| **Dim ymateb** | 4 | 25.0% |

4.40. Nododd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn casglu'r rhan fwyaf o'r data neu'r cyfan o'r data ar hyn o bryd fel y'i nodwyd yn DPA 2. Ni wnaed unrhyw sylwadau ynglŷn â pha elfennau penodol o'r data nad ydynt yn cael eu casglu.

**Cwestiwn 14**

4.41. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 2, a oes yna unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr ydych yn argymell y dylem eu hystyried ymhellach? Os oes, rhowch fanylion a nodwch y rhesymau pam.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.42. Argymhellodd yr ymatebwyr y byddai DPAau i'w hystyried ymhellach yn seiliedig ar gymhwysedd, cymwysterau, profiad staff a materion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a chyfathrebu.

**Cwestiwn 15**

4.43. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 3, faint o'r data a gynigir yr ydych yn ei gasglu eisoes? Os 'ychydig neu ddim ohono' neu 'rhywfaint ohono', dywedwch wrthym pa elfennau penodol o'r data nad ydych yn eu casglu a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Y rhan fwyaf neu'r cyfan ohono** | 10 | 62.5% |
| **Rhywfaint ohono** | 1 | 6.3% |
| **Ychydig neu ddim ohono** | 1 | 6.3% |
| **Dim ymateb** | 4 | 25.0% |

4.44. Nododd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn casglu'r rhan fwyaf o'r data neu'r cyfan o'r data fel y'i nodwyd yn DPA 3.

4.45. Nododd rhai ymatebwyr y byddai cofnodi canlyniadau a data yn ymwneud ag ymdrin â chwynion corfforaethol a'r broses apelio yn fwy ystyrlon o bosibl.

**Cwestiwn 16**

4.46. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 3, a oes yna unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr ydych yn argymell y dylem eu hystyried ymhellach? Os oes, rhowch fanylion a nodwch y rhesymau pam.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.47. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y dylid casglu data yn ymwneud ag ymdrin â chwynion corfforaethol a'r broses apelio. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am arweiniad ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â chŵyn a dadansoddiad o achosion cwynion.

**Cwestiwn 17**

4.48. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 4, faint o'r data a gynigir yr ydych yn ei gasglu eisoes? Os 'ychydig neu ddim ohono' neu 'rhywfaint

ohono’, dywedwch wrthym pa elfennau penodol o’r data nad ydych yn eu casglu a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Y rhan fwyaf neu’r cyfan ohono** | 7 | 43.8% |
| **Rhywfaint ohono** | 4 | 25.0% |
| **Ychydig neu ddim ohono** | 2 | 12.5% |
| **Dim ymateb** | 3 | 18.8% |

4.49. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod eisoes yn casglu rhywfaint o'r data neu'r rhan fwyaf o'r data.

4.50. Tynnodd ymatebwyr sylw at DPAau penodol nad ydynt yn cael eu casglu ar hyn o bryd, er enghraifft nid yw nifer yr adroddiadau arolygu yn cael ei gofnodi ac mae'n bosibl na fydd nodweddion rhai DPAau ar gael yn y fformat cyfredol gan ddarparwyr meddalwedd presennol, a gofynnwyd am ddigon o amser i ddiweddaru systemau ar gyfer rhai o'r manylion ychwanegol gofynnol.

**Cwestiwn 18**

4.51. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 4, a oes yna unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr ydych yn argymell y dylem eu hystyried ymhellach? Os oes, rhowch fanylion a nodwch y rhesymau pam.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.52. Awgrymodd yr ymatebwyr DPAau ychwanegol i'w hystyried, gan gynnwys nifer y ceisiadau i gymeradwyo rheoli adeiladu sy'n dod i law na ellir codi tâl amdanynt a nifer yr arolygiadau cychwyn gwaith.

**Cwestiwn 19**

4.53. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 5, faint o’r data a gynigir yr ydych yn ei gasglu eisoes? Os ‘ychydig neu ddim ohono’ neu ‘rhywfaint ohono’, dywedwch wrthym pa elfennau penodol o’r data nad ydych yn eu casglu a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Y rhan fwyaf neu’r cyfan ohono** | 5 | 31.3% |
| **Rhywfaint ohono** | 5 | 31.3% |
| **Ychydig neu ddim ohono** | 2 | 12.5% |
| **Dim ymateb** | 4 | 25.0% |

4.54. Nododd mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn casglu rhywfaint o'r data neu'r rhan fwyaf o'r data ar gyfer y DPA hwn.

4.55. Ymhlith yr elfennau penodol o ddata y nododd rhai ymatebwyr nad ydynt yn cael eu casglu ar hyn o bryd roedd nifer yr achosion o strwythur peryglus o

dan Adran 77 a 78, ond nodwyd bod y rhain y tu hwnt i gwmpas y Rheoliadau Adeiladu.

4.56. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r manylder a gynigiwyd yn golygu y byddai'n anymarferol casglu'r data, ond awgrymodd eraill y byddai'r rhan fwyaf o'r data eisoes ar gael. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y byddai angen cyfnod paratoi digonol er mwyn diweddaru'r systemau presennol ar gyfer y manylion ychwanegol gofynnol.

**Cwestiwn 20**

4.57. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 5, a oes yna unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr ydych yn argymell y dylem eu hystyried ymhellach? Os oes, rhowch fanylion a nodwch y rhesymau pam.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.58. Rhestrodd yr ymatebwyr nifer o DPAau i'w hystyried ymhellach, megis Hysbysiadau Cychwynnol Annilys a cheisiadau am Estyniad Amser Hysbysiad Cychwynnol, nifer yr achosion o dorri rheolau a nodwyd yn ystod y camau cynllunio a fetio, ymyriadau llwyddiannus a nifer yr hysbysiadau dymchwel.

**Cwestiwn 21**

4.59. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 6, faint o'r data a gynigir yr ydych yn ei gasglu eisoes? Os 'ychydig neu ddim ohono' neu 'rhywfaint ohono', dywedwch wrthym pa elfennau penodol o'r data nad ydych yn eu casglu a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Y rhan fwyaf neu'r cyfan ohono** | 2 | 12.5% |
| **Rhywfaint ohono** | 2 | 12.5% |
| **Ychydig neu ddim ohono** | 8 | 50.0% |
| **Dim ymateb** | 4 | 25.0% |

4.60. Roedd y mwyafrif sylweddol o'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn casglu ychydig o ddata ar gyfer DPA 6 neu ddim data o gwbl.

4.61. Nododd sawl un o'r ymatebwyr nad oes proses i gasglu data o'r fath ar hyn o bryd ac y byddai angen buddsoddi mewn systemau newydd.

**Cwestiwn 22**

4.62. Gan ystyried Dangosydd Perfformiad Allweddol 6, a oes yna unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr ydych yn argymell y dylem eu hystyried ymhellach? Os oes, rhowch fanylion a nodwch y rhesymau pam.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.63. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr nad oes angen ystyried unrhyw DPAau eraill. Awgrymodd un ymatebydd y dylid is-rannu'r ffordd y cofnodir ceisiadau mewn perthynas ag 'adeiladau perthnasol' yn grwpiau diben mwy penodol.

**Cwestiwn 23**

4.64. A oes gennych unrhyw farn am amlder adrodd ynghylch Dangosyddion Perfformiad Allweddol 1 i 6? Os 'oes', rhowch fanylion a nodwch resymau.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Oes** | 8 | 53.3% |
| **Nac oes** | 2 | 13.3% |
| **Ddim yn siŵr / dim barn** | 1 | 6.7% |
| **Dim ymateb** | 4 | 26.7% |

4.65. Cyflwynodd nifer o'r ymatebwyr eu barn am DPAau 1 i 6, gan awgrymu y dylai darparwyr ym maes rheoli adeiladu fonitro'r DPAau yn rheolaidd er mwyn nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n gofyn am ymyriad gan reolwyr. Fodd bynnag, awgrymodd llawer o'r ymatebwyr fod adroddiadau blynyddol yn fwy rhesymol er mwyn peidio â gosod gormod o faich ac osgoi costau gweinyddol diangen.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.66. Ystyriwyd yr holl sylwadau ynglŷn â'r DPAau wrth ddatblygu'r cynllun monitro ar gyfer y Rheolau Safonau Gweithredol ymhellach. Er ei bod yn gadarnhaol gweld, yn achos y mwyafrif o'r ymatebwyr, fod y rhan fwyaf o'r data ar DPAau sydd eu hangen eisoes yn cael eu cofnodi, un cais cyffredin ymhlith yr ymatebwyr oedd yr angen am fwy o eglurder ynglŷn â'r gofynion a'r amser i'w rhoi ar waith. Felly, bwriadwn symleiddio'r gofynion a'u gwneud yn fwy eglur, a chyhoeddi'r DPAau terfynol erbyn hydref 2023.

4.67. Mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r DPAau o ganlyniad i'r sylwadau a ddaeth i law. Yn gyffredinol, mae llawer o'r gofynion wedi cael eu symleiddio, megis adroddiadau ar weithwyr proffesiynol cymwys, ac mae eraill wedi cael eu diwygio, megis gwybodaeth adroddadwy ar gyfer tystysgrifau unioni. Mae nifer o'r gofynion hefyd wedi cael eu dileu, megis y gallu i roi gwybod am hysbysiadau strwythur peryglus o dan adran 77/78, er mwyn symleiddio'r system fonitro gyfan a lleihau'r baich posibl ar ymdrin â gwybodaeth a rhoi gwybod.

## Y cyd-destun Strategol

**Cwestiwn 24**

4.68. Gan ystyried Atodiad B, a ydych chi / eich corff rheoli adeiladu yn deall beth sy'n ofynnol gennych? Os 'nac ydw / nac ydym' neu 'ddim yn siŵr', dywedwch wrthym beth fyddai'n helpu i egluro hynny.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Ydw / ydym** | 10 | 62.5% |
| **Nac ydw / nad ydym** | 0 | 0.0% |
| **Ddim yn siŵr** | 3 | 18.8% |
| **Dim ymateb** | 3 | 18.8% |

4.69. Nododd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn deall beth fydd yn ofynnol ganddynt.

4.70. Awgrymodd ymatebwyr y dylid cynnal gweithdai penodol a nodi'n glir pwy fydd yn monitro perfformiad yn erbyn y Rheolau Safonau Gweithredol, os bydd Llywodraeth Cymru yn penodi corff dirprwyedig i weithredu ar ei rhan.

**Cwestiwn 25**

4.71. Gan ystyried Atodiad B, i ba raddau yr ydych yn hyderus eich bod chi / eich corff rheoli adeiladu'n gallu bodloni'r gofynion a amlinellir ynddo? Os 'ddim yn hyderus o gwbl' neu 'ddim yn siŵr', dywedwch wrthym pa baragraffau yr ydych yn poeni amdanynt a pham.

**Crynodeb o'r ymatebion**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn hyderus iawn** | 2 | 12.5% |
| **Yn weddol hyderus** | 9 | 56.3% |
| **Ddim yn hyderus o gwbl** | 1 | 6.3% |
| **Ddim yn siŵr** | 1 | 6.3% |
| **Dim ymateb** | 3 | 18.8% |

4.72. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn weddol hyderus neu'n hyderus iawn y gallent fodloni'r gofynion a amlinellir yn Atodiad B.

4.73. Nododd rhai ymatebwyr nad yw'n glir beth a ddisgwylir gan y rhai ym maes rheoli adeiladu ac na fydd modd sicrhau cysondeb. Hefyd, nododd rhai ymatebwyr bryderon ynglŷn ag eglurder yr atodiad.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.74. Er ei bod yn gadarnhaol gweld bod yr ymatebwyr yn deall y cyd-destun strategol ar y cyfan a'u bod yn weddol hyderus y gellir bodloni'r gofynion, nodir y sylwadau ynglŷn ag eglurder y ddogfen a'r corff rheoleiddio. Mae'r

ddogfen wedi cael ei diwygio i fod yn gliriach a byddwn yn cyfathrebu ynglŷn ag unrhyw achos posibl o ddirprwyo cyn gynted ag y bo modd.

## Cwestiynau cyffredinol

**Cwestiwn 26**

4.75. Hoffem gael eich barn am yr effeithiau y byddai'r polisïau arfaethedig yn eu cael ar y Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.76. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai wedi dewis peidio â mynegi barn am hyn neu'n credu na fyddai'r polisïau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Teimlai rhai ymatebwyr y gall gael effaith gadarnhaol yn yr ystyr y gall greu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

**Cwestiwn 27**

4.77. Esboniwch hefyd sut yr ydych yn credu y gallai'r polisïau arfaethedig gael eu llunio neu'u newid fel eu bod yn effeithio'n gadarnhaol neu'n cael mwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac fel na fyddant yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.78. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr naill ai wedi dewis peidio â mynegi barn am hyn neu'n credu na fyddai'r polisïau arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

**Cwestiwn 28**

4.79. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt.

**Crynodeb o'r ymatebion**

4.80. Cafwyd sylwadau gan ymatebwyr ar faterion cysylltiedig eraill, gan gynnwys pa fesurau sy'n cael eu hystyried o ran pwy sy'n gyfystyr â Deiliad Dyletswydd cymwys. Nodwyd hefyd y dylai unrhyw Reolau Safonau Gweithredol fod yn ddigon hyblyg i ddarparwyr rheoli adeiladu fabwysiadu prosesau ac arferion addas sy'n briodol i'r llwyth gwaith. Teimlai rhai ymatebwyr y bydd cyflwyno'r Rheolau Safonau Gweithredol hyn yn gosod

baich gweinyddol ychwanegol ar swyddogion rheoli adeiladu awdurdodau lleol, a chwestiynwyd a oes angen system yng Nghymru sy'n debyg i'r system yn Lloegr.

**Ymateb y Llywodraeth**

4.81. Rydym yn ddiolchgar am yr holl sylwadau a gafwyd ac rydym wedi ystyried pob un ohonynt yn fanwl. Nodwn y sylwadau ynglŷn â system bwrpasol i Gymru ac maent yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r sylwadau ar gwestiynau cyntaf yr ymgynghoriad hwn lle roedd cefnogaeth gryf o blaid cysondeb drwy Gymru a Lloegr.

4.82. Byddwn yn sicrhau y bydd y cynigion yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wrth iddynt gael eu hadolygu a'u llunio'n derfynol.

4.83. Credwn fod y Rheolau Safonau Gweithredol yn cynnig fframwaith ar gyfer y safonau y mae angen i Gyrff Rheoli Adeiladu eu cyrraedd ond eu bod yn rhoi hyblygrwydd o ran sut mae sefydliadau unigol yn cydymffurfio â nhw yn ymarferol. Eto i gyd, caiff y sylwadau hyn, ynghyd â'r holl sylwadau eraill, eu hystyried wrth i'r Rheolau Safonau Gweithredol gael eu llunio'n derfynol.

# 5. Y Camau Nesaf

5.1. Caiff y Rheolau Safonau Gweithredol a'r Atodiadau cysylltiedig eu llunio'n derfynol yn unol ag ymateb y Llywodraeth uchod a'u cyhoeddi yn yr hydref.

5.2. Pan fyddant wedi'u cyflwyno, bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r Rheolau Safonau Gweithredol o bryd i'w gilydd lle y bo'n angenrheidiol ac yn briodol, gan ystyried safbwyntiau'r proffesiwn a rhanddeiliaid eraill.